COFNODION CYFARFOD
PARTNERIAETH TENANTIAID AC AELODAU WRECSAM
NEUADD Y DREF, WRECSAM – DYDD GWENER, 20 IONAWR 2006

AELODAU

Yn cynrychioli Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam

Cynghorydd	A.C. Bailey	Cynghorydd	*	P. Jeffares
"	Nick Colbourne	"		R. Alun Jenkins
"	Gerry M. Craddock	"		Philip Michael Shone
"	Mrs. June Fearnall	"		J.R. Skelland
"	K.H. Hett	"		Malcolm Williams

Yn cynrychioli tenantiaid Wrecsam

*Mr. Sidney Howells	Mr. Graham Rowlands
Ms. Wendy Loton	Mr. Joe Skerrith
*Ms. Dorothy Mitchell	*Mr. Brian Stapley
Mr. Eric Moore	Mrs. Chris Thomas
Mr. Dave Rimmer	

*Absennol

Yn bresennol hefyd – Mr. C.R. Lloyd

1 Ymddiheuriadau

Cyflwynwyd ymddiheuriadau am absenoldeb ar ran Mr. Sidney Howells, Ms. Dorothy Mitchell a Mr. Brian Stapley.

2 Cofnodion

CYTUNWYD – bod cofnodion cyfarfod Partneriaeth Tenantiaid ac Aelodau Wrecsam a gynhaliwyd ar 16 Rhagfyr 2005 yn cael eu derbyn a'u cadarnhau fel cofnod cywir.

3 Datganiadau o Fuddiant Personol

Hysbysodd y Cynghorydd Malcolm Williams o'i fwriad i ddatgan buddiant personol mewn perthynas ag eitem 5 ar yr agenda – cynllun garddio cynorthwyedig.

4 Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

Cyfeiriodd y Cadeirydd at ymddeoliad Mr. Richard Dodd. Ar ran tenantiaid ac aelodau'r Bartneriaeth, diolchodd y Cadeirydd i Mr. Dodd am ei holl waith caled ac ymroddiad a dymunodd yn dda iddo ar gyfer ymddeoliad hir a hapus.

Dywedodd y Cadeirydd fod Catherine Green yn gadael yr Awdurdod i ymuno â Chyngor Wirral a chroesawodd Mr. Paul Allen i'w gyfarfod cyntaf.

5 Perfformiad Cyffrediol yr Adran Tai

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landordiaid adroddiad (CHPPO/11/06) yn diweddaru'r Bartneriaeth o berfformiad cyffredinol yr Adran Tai yn y meysydd canlynol:-

- Casglu refeniw – nodwyd bod ôl-ddyledion rhent wedi gwella'n fawr ers mis Gorffennaf y llynedd. Cyfeiriwyd yn benodol at wariant ar gostau llys wrth adfer ôl-ddyledion rhent. Gofynnwyd am gyflwyno adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol yn rhoi mwy o fanylion am gostau a'r incwm y mae'r Cyngor yn ei adfer wrth olrhain yr achosion hyn.
- Eiddo gwag ac eiddo a ail-osodir - nodwyd bod gennym y lefel isaf o eiddo gwag ers ad-drefnu llywodraeth leol a bod cynigion wedi cael eu cymeradwyo i ymdrin â phob eiddo gwag hirdymor. Cyfeiriwyd at yr amser a gymerir i wneud gwaith ar eiddo a ddifrodir gan dân. Gofynnwyd a oedd hyn oherwydd yswiriant. Gofynnwyd am adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol ynghylch y mater o yswiriant ac a oedd yna bosibilrwydd o hawlio ar gyfer tenantiaid mewn llety dros dro e.e. gwely a brecwast.
- Dyraniadau/Gosodiadau Tai.
- Digartrefedd.
- Trwsiadau – nodwyd bod angen taclo peth o'r gwaith anoddach hŷn a oedd wedi mynd y tu hwnt i'w terfynau amser (h.y. ffensys, llwybrau concrid). Awgrymwyd y gellid ystyried rhai o'r rhain fel gwelliannau/gwaith cynnal a chadw yn hytrach na thrwsiadau a holwyd a oedd angen arolygu sut mae'r data ar gyfer y gwaith hwn yn cael ei gyflwyno. Awgrymwyd y gellid defnyddio unrhyw arbediadau a wneir yn yr HRA o'r cynllun garddio cynorthwyedig i wneud y gwaith hwn.
- Eiddo hawl i brynu/gwerthu – gofynnwyd am adroddiad i gyfarfod yn y dyfodol mewn perthynas â phrisio eiddo'r Cyngor i'w gwerthu gan eu bod i weld yn isel iawn o'u cymharu â phrisiadau preifat.
- Cwynion/ymholiadau – gofynnwyd i'r Bartneriaeth dderbyn adroddiad blynyddol yn rhoi mwy o fanylion am y cwynion a'r clod a dderbynnir.
- Materion Gorfodi Tenantiaeth.
- Salwch – gofynnwyd am adroddiad ar gyfer y cyfarfod nesaf yn manylu ar gostau ariannol salwch.
- Galwad Gofal.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a chyflwyno'r adroddiadau y gofynnwyd amdanynt i'r Bartneriaeth.

6 Cynllun Garddio Cynorthwyedig

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid adroddiad (CHPPO/09/06) yn diweddaru'r Bartneriaeth o'r cynllun garddio cynorthwyedig i denantiaid y Cyngor a wneir gan Groundwork Wrecsam a Sir y Fflint a gofynnodd am farn ynghylch y tri opsiwn i ddiwygio'r cynllun yn dilyn 12 mis o weithrediad.

Croesawodd tenantiaid ac aelodau'r adroddiad a chydnabuwyd bod tenantiaid, yn gyffredinol, yn fodlon â'r cynllun a ddarpeir gan Groundwork. O'r tri opsiwn, cynigiwyd parhau â'r cynllun presennol o fewn cyllideb lai a throsglwyddo'r arbediadau i weddillion. Awgrymwyd bod y gyllideb lai'n caniatáu i swm wrth gefn o ryw £6,000 tu hwnt i gost y cynllun presennol gael ei glustnodi ar gyfer garddio a'i ddefnyddio yn ôl doethineb rheolwr swyddfeydd ystad at ddibenion brys yn achos tenantiaid hawdd eu niweidio/nad ydynt yn cael eu cynnwys yn y meini prawf sefydlog.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a pharhau â'r cynllun presennol o fewn cyllideb lai fel yr awgrymwyd yn y cyfarfod heddiw.

(Datganodd y Cynghorydd Malcolm Williams fuddiant personol yn y mater hwn yn unol â Chod Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau gan ei fod yn ymddiriedolwr ar Fwrdd Groundwork. Cymerodd ran yn y drafodaeth ond ni phleidleisiodd.)

7 Cynllun Rheoli'r Gwasanaeth Tai

Cyflwynodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid adroddiad (CHPPO/08/06) yn cynghori'r Bartneriaeth o flaenoriaethau'r gwasanaethau landlordiaid i'w cynnwys yng Nghynllun Rheoli Gwasanaeth yr Adran ar gyfer 2006/07 a gofynnodd am sylwadau cyn paratoi a chyflwyno'r cynllun terfynol.

Cymeradwyodd y tenantiaid y cynllun a gofynnwyd am adroddiad i'r Bartneriaeth, fel mater o frys, ar ad-daliadau yn yr HRA o adrannau eraill y Cyngor.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a chyflwyno adroddiad arall am ad-daliadau i gyfarfod cynnar o'r Bartneriaeth.

8 Gosod Rhenti 2006/07

Hysbysodd Rheolwr y Gwasanaethau Landlordiaid y Bartneriaeth y byddai'r Bwrdd Gweithredol, yn ei gyfarfod ar 31 Ionawr 2006, yn ystyried yr argymhellion canlynol fel rhan o gyllideb yr HRA a gosod rhenti 2006/07:-

- Codi rhenti 3.3% ar bob annedd (cynnydd o £1.63 yr wythnos dros 48 wythnos ar gyfartaledd).
- Cynnydd blynyddol mewn rhenti modurdai o £4.80 (£0.10c yr wythnos dros 48 wythnos).
- Cynnydd mewn taliadau gwres o 35% (cyfartaledd o £1.24 yr wythnos dros 48 wythnos).

Gofynnodd tenantiaid am adroddiad i'r Bartneriaeth mewn perthynas â modurdai, yn arbennig mewn perthynas â chostau incwm/gwariant a sawl modurdy sy'n dal i gael eu rhentu gan denantiaid y Cyngor.

CYTUNWYD – i nodi'r adroddiad a chyflwyno adroddiad pellach am fodurdai i gyfarfod arall o'r Bartneriaeth.

9 Dyddiadau Cyfarfodydd Pellach

CYTUNWYD – i gynnal cyfarfodydd y Bartneriaeth am 10.00 y bore ar y diwrnodau canlynol:

Dydd Gwener, 24 Mawrth 2006 – Ystafell Bwyllgor 3
Dydd Gwener, 21 Ebrill 2006 – Siambr y Cyngor
Dydd Gwener, 9 Mehefin – Ystafell Bwyllgor 3
Dydd Gwener, 21 Gorffennaf 2006 – Ystafell Gyfarfod, Gwasanaethau Tai, Ffordd Rhuthun

Y Cynghorydd A.C. Bailey
Cadeirydd